



## GOBAITH EIN HACHAWDWRIAETH

Llythyr Bugeiliol ar gyfer mis Hydref oddi wrth Esgob Llanelwy at ffyddloniaid yr esgobaeth

**M**ae'n gwneud lles weithiau i edrych ar y darlun mwy – sefyll yn ôl a chofio am ein gogwydd sylfaenol fel pobl Duw. Wrth sôn am y neges Gristnogol, mae'r Eglwys yn dweud yn aml ei bod wedi'i chomisiynu i ddatgan y "Newyddion Da", ac fe ddylem ni fod yn sôn am y newyddion dda wrth y bobl rydym ni'n eu cyfarfod ac yn eu gwasanaethu. Rhan o'r newyddion da hwnnw – ei gnewyllyn mewn gwirionedd - yw'r gred bod Duw ar ein hochr ni a'i fod yn dod i'r byd hwn i ddod ag iachawdwriaeth i ni. Ond beth yw iachawdwriaeth a beth yw ei neges yn ein cyfnod ni?

Rwy'n meddwl yn aml fod Cristnogaeth yn grefydd realistig iawn oherwydd ei bod yn dechrau gyda'r ffaith fod pobl yn dueddol o wneud llanast o bethau. Rydym ni'n dda am wneud llawer o bethau, wrth gwrs – celf a gwyddoniaeth a gwareiddiad. Ond, rydym ni hefyd yn plygu i fypwyon tywyll, yn farus neu'n gas, rhagfarn a phechod. Mae hynny'n gweithio ar ddwy lefel – ein bod ni'n methu, fel cymdeithas ac fel unigolion, â byw yn ôl yr hyn mae Duw yn ei ddymuno gennym ni. Gallai hyn fod braidd yn dywyll oni bai am yr hyn sy'n dod nesaf – fod Duw yn ein caru ac wedi ymrwymo i'n hiachawdwriaeth. "Yn hyn y mae cariad: nid ein bod ni'n caru Duw ond ei ef wedi ein caru ni, ac anfon ei Fab i fod yn foddion ein puredigaeth oddi wrth ein pechodau." (1 Ioan 4.10)

Mae'n bosibl dweud fod rhodd Iesu gan Dduw yn rhodd ddwbl – yn gyntaf, dyma'r Ymgawdoliad, yn cael ei ddathlu adeg y Nadolig, 'a daeth y Gair yn gnawd a phreswyllo yn ein plith, yn llawn gras a gwirionedd! (Ioan 1.14). Drwy ddod yn ddynol, mae Duw yng Nghrist yn sancteiddio'r greadigaeth ac yn uno nef a daear. Eto daw bywyd Iesu i'w uchafbwynt yn y croeshoeliad adeg y Pasg, pan mae Duw yng Nghrist yn rhoi ei hun i farwolaeth ar y groes: "Y mae wedi maddau inni ein holl gamweddau, ac wedi diddymu dogfen ein hymrwymiad i'r ordeiniadau oedd yn ein gwneud yn ddyledwyr. Y mae wedi ei bwrw hi o'r neilltu; fe'i hoeliodd ar y groes." (Colosiaid 2.14). Bod yn Gristion yw treiddio i ddirgelwch Crist, cael eich bedyddio i'w gorff, rhannu yn yr ymgawdoliad ac yn ei farwolaeth a'i atgyfodiad, dod yn etifeddion iachawdwriaeth a bywyd tragwyddol. Waeth i mi gyfeirio at y cyfan o'r Llythyr at y Rhufeiniaid yma, gan fod y penodau agoriadol yn treiddio'n ddwfn i hyn, ond gadewch i mi ddewis un adnod: "Y mae pechod yn talu cyflog, sef marwolaeth; ond rhoi yn rhad y mae Duw, rhoi bywyd tragwyddol yng Nghrist Iesu ein Harglwydd." (Rhufeiniaid 6.23). Mae Duw eisiau i bob un ohonom dyfu i lawnder bywyd. Mae'n tacló'r llanast rydym ni'n ei wneud o bethau trwy gymryd y cyfan o fywyd dynol yn Iesu, ac ennill y frwydr drosom. Mae'r cyfan yn rhodd: "...cynifer ag a'i derbyniodd, rhoes iddynt hwy, y rhai sy'n credu yn ei enw, hawl i ddod yn blant Duw." (Ioan 1.12). I grynhoi mewn un gair a ddefnyddiais y mis diweddaf: mae hyn yn gymod, Duw a dynoliaeth, trwy Crist, yn cael eu dwyn ynghyd i fod "yn gytûn".

Yn yr un modd ag y mae "pechod" (rhywbeth rwyf wedi'i ddisgrifio fel 'dynion yn gwneud llanast o bethau') yn gweithredu ar ddwy lefel, yr unigolyn a'r cymdeithasol, felly hefyd iachawdwriaeth: mae unigolion yn cael gwahoddiad i fywyd tragwyddol; a rydyn ninnau, gyda'n gilydd, yn cael gwahoddiad, o dan Dduw, i adeiladu Ei Deyrnas, ac i fod yn hebryngwyr heddwch a chyfiawnder.

"Os yw Duw o'n plaid, pwy a all fod yn ein herbyn?" (Rhufeiniaid 8.31). Adnabod Crist felly, yw adnabod bywyd tragwyddol a derbyn gobaith iachawdwriaeth, pan fyddwn ni'n cael ein gwneud yn gyfan a phan fydd cymdeithas yn cael ei dwyn i realiti galwedigaeth Duw, o gymdeithas wedi'i phrynu, gyfiawn a chyfan. Dylai hynny rhoi gobaith i ni ym mhob sefyllfa, oherwydd os ydym yn gwybod ble mae pen ein taith, yna bywyd – gyda'i holl drafferthion a'i heriau – yw'r broses o deithio yno. "Yr wyf yn sicr o hyn yma' ysgrifennodd Paul "y bydd i'r hwn a ddechreuodd waith da yn och ei gwblhau." (Philipiad 1.6). 'Dyw hyd yn oed Covid ddim yn gallu ei atal; 'dyw hyd yn oed marwolaeth ddim yn gallu ei orchfygu.

Sut mae hynny'n egluro ein sefyllfa bresennol? Mae'n golygu, drwy roi ein dwylo yn nwylo Duw, o gerdded gydag ef, mai'r gobaith o iachawdwriaeth yw'r cyd-destun ble mae popeth arall yn digwydd. Yn Covid, rydym yn ymdrechu, rydym yn ofni, rydym yn cael ein gorfodi i ddilyn ffyrdd newydd. Rydym yn wynebu profedigaeth a salwch a'r cyfle i garu. Eto "...oherwydd myfi sy'n gwybod fy mwriadau a drefnaf ar eich cyfer", medd yr Arglwydd, "bwriadau o heddwch, nid niwed, i roi i chwi ddyfodol gobeithiol." (Jeremeia 29.11). Allwn ni fod yn bobl o obaith a llawenydd ar yr adeg yma?

Allwn ni fod yn y bobl sydd wirioneddol yn credu ac yn cofleidio rhodd Duw yng Nghrist? Ac os ydych chi eisiau ychydig o waith cartref, gwnewch gyfle efallai, i eistedd i lawr yr wythnos hon a darllen, ar ei hyd ac yn ddi-fwlch, Rufeiniaid Penodau 1 i 8. Yn newydd neu'n gyfarwydd – mae'n sôn am obaith Cristnogol. Bendith Duw fo arnoch.

+gregory/melwy